# DEWIS GOBAITH

## Cynllunio am yfory, gweithredu heddiw

Centre for Alternative Technology
Canolfan y Dechnoleg Amgen

ADOLYGIAD BLYNYDDOL

**2021–22**













# Cynnwys


2 Neges gan Gadeirydd yr Ymddiriedolwyr

4 Uchafbwyntiau'r flwyddyn

6 Cynlluniau mawr ar gyfer y ganolfan eco

8 Yn nes at Brydain Di-garbon

12 Ehangu ein Hysgol Graddedigion

14 Llenwi'r bwlch sgiliau

16 CyDA yn COP26

18 Hanesion CyDA – sut y mae ein cymuned yn gwneud gwahaniaeth

20 Y flwyddyn mewn rhifau

22 Sut y buon ni'n gwario ein hincwm


# Neges gan Gadeirydd yr Ymddiriedolwyr



Blwyddyn arall, a chorws arall o larymau yn ein rhybuddio am yr hinsawdd a byd natur.

Mae'n anodd ei ddarllen, ac mae'n gwbl ddealladwy bod unrhyw un sy'n cydnabod dyfnder y broblem, a maint yr her, yn teimlo ofn go iawn am y dyfodol – ofn droson ni ein hunain, dros y mwyaf agored i niwed, dros ein plant a chenedlaethau'r dyfodol, dros ein byd rhyfeddol.

Mae'n gofyn cael gweledigaeth o rywbeth gwell i droi'r ofn hwnnw'n weithred, ac mae'n gofyn cael adnoddau, gwybodaeth a sgiliau i droi'r weledigaeth yn realiti.

Dyna le y mae CyDA yn camu i'r adwy. Ers bron i 50 mlynedd, mae CyDA wedi canolbwyntio ar ganfod atebion i faterion amgylcheddol – dulliau o fyw heb danwyddau ffosil, dulliau o fodoli a all ddiogelu a gwella'r

byd. O ddulliau adeiladu effaith-isel ac ynni adnewyddadwy i gynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy a newid cymdeithasol, mae CyDA yn helpu pobl i weld beth sy'n bosib ac yn rhoi'r adnoddau iddyn nhw i helpu i wireddu newid.

Nawr, rydyn ni'n benderfynol o wneud mwy, o fynd ymhellach. Mae pob ffracsiwn o radd o gynhesu'n cyfri, mae pob rhywogaeth a gollir yn diflannu am byth – dyna pam rydyn ni'n ehangu ein huchelgeisiau gyda phrosiect newydd trawsnewidiol, a lansiwyd ddiwedd 2021, i ehangu ein gwaith a chyrraedd llawer mwy o bobl (gweler tudalen 6).

Hoffwn ddatgan fy niolch i, a diolch ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, am gefnogaeth ddiwyro Mick Taylor dros y degawd diwethaf, sef fy rhagflaenydd fel Cadeirydd a adawodd y swydd ar ddiwedd y flwyddyn. Diolch hefyd i'n holl staff, gwirfoddolwyr, aelodau, cefnogwyr, myfyrwyr, graddedigion ac ymwelwyr anhygoel, sy'n ein hysbrydoli bob dydd i weithio gyda'n gilydd i greu'r byd gwell rydyn ni oll yn gwybod sy'n bosib.

Diolch yn fawr iawn.

Sally Carr
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr

## Cyflwyno ein cyd-Brif Swyddogion Gweithredol dros dro newydd





Mae Pennaeth Datblygu CyDA, Eileen Kinsman, a'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau, Paul Booth, wedi cael eu penodi'n gyd-Brif Swyddogion Gweithredol dros dro wrth i ni gynllunio recriwtio rhywun ar sail barhaol i gymryd lle Peter Tyldesley, a adawodd CyDA ddiwedd 2021. Mae Eileen a Paul ill dau wedi bod yn aelodau allweddol o Uwch Dîm Rheoli CyDA ers sawl blwyddyn, yn helpu i sbarduno ein llwyddiant a llunio strategaeth a chynlluniau hirdymor CyDA.

Meddai Eileen a Paul, "Rydyn ni'n falch iawn o fod yn arwain y sefydliad gwych hwn ar adeg pan fo pwysigrwydd ein gwaith ymchwil a'n haddysg amgylcheddol a'r galw amdanyn nhw'n fwy nag erioed o'r blaen. Rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda staff, gwirfoddolwyr, cefnogwyr a myfyrwyr CyDA a'r gymuned ehangach wrth i ni gychwyn ar gyfnod newydd cyffrous yn hanes bron i 50 mlynedd CyDA."

# Uchafbwyntiau'r flwyddyn

**Yn 2021-22, buon ni'n ehangu ein gwaith i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd ac yn rhannu'r atebion cynaliadwy y mae eu hangen arnon ni'n ddirfawr.**

**Gwneud cynlluniau i drawsnewid ein canolfan eco**, i ysbrydoli, cynnig gwybodaeth a galluogi mwy o bobl. Ar hyn o bryd mae ein syniadau'n cynnwys profiad newydd i ymwelwyr i ddod ag atebion ymarferol yn fyw, hyb sgiliau cynaliadwy i alluogi gweithlu'r dyfodol, ac ehangu'r allgymorth digidol i agor drysau CyDA i fwy o bobl byth ledled y byd. (gweler tudalen 6)



**Cefnogi cynghorau, cymunedau a sefydliadau drwy ein Canolfan Prydain Di-garbon a'r Labordy Arloesi**. Buon ni'n lansio ein hyb adnoddau ar-lein rhad ac am ddim i helpu sefydliadau i weithredu ar yr argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth, a buon ni'n cynnig ein cyrsiau cyntaf mewn Llythrennedd Carbon ar gyfer awdurdodau lleol. Bu tîm ein Labordy Arloesi'n cefnogi ystod o gynghorau a grwpiau cymunedol i archwilio'r rhwystrau i weithredu, ac i gydweithio ar gyd-greu atebion. (gweler tudalen 8)

**Croesawu mwy o fyfyrwyr nag erioed i Ysgol Graddedigion yr Amgylchedd CyDA** – gyda thros 250 o fyfyrwyr yn ymuno â ni i ennyn dealltwriaeth fanwl o faterion amgylcheddol ac atebion posib. Buon ni'n adnewyddu ein hystod o gyrsiau i helpu mwy o bobl i gymryd camau tuag at ddyfodol mwy diogel, iach a theg i ni gyd. (gweler tudalen 12)



**Helpu i lenwi'r bwlch sgiliau cynaliadwy drwy ddatblygu Dosbarth Meistr Ôl-osod newydd** i feithrin gwybodaeth ac arbenigedd o fewn y diwydiant adeiladu. Fe lwyddon ni i sicrhau cyllid ar gyfer prosiect partneriaeth newydd sy'n darparu hyfforddiant sgiliau cynaliadwy, yn cefnogi swyddi gwyrdd ac yn cynyddu dealltwriaeth a gwybodaeth am atebion amgylcheddol. A thrwy gydol 2021, buon ni'n cynnal digwyddiadau a chyrsiau ar-lein i helpu pobl i feithrin eu sgiliau cynaliadwyedd. (gweler tudalen 14)





**Cymryd rhan yn nhrafodaethau COP26 ar yr hinsawdd ym mis Tachwedd**. Buon ni'n rhannu gwybodaeth ac ymchwil gyda chyfranogwyr o bedwar ban y byd ac yn magu cysylltiadau a phartneriaethau newydd i gynyddu ein heffaith. Fel Sylwedyddion swyddogol, roedden ni y fan a'r lle pan gynhaliwyd sgyrsiau, cyflwyniadau a thrafodaethau swyddogol. A fe ymunon ni â rhyw 100,000 o bobl yn gorymdeithio drwy Glasgow fel rhan o'r Diwrnod Gweithredu Byd-eang yn galw am weithredu cryfach a chyflymach ar yr argyfwng hinsawdd gan arweinwyr y byd. (gweler tudalen 16)

**Roedd hyn oll yn bosib o'ch herwydd CHI. Wrth i heriau'r pandemig barhau a'r argyfwng costau byw ddechrau cydio, gwnaethoch barhau i'n cefnogi'n hael.**

# Diolch yn fawr

# Cynlluniau mawr ar gyfer y ganolfan eco

Yn 2021-22, fe ddechreuon ni ar gynlluniau uchelgeisiol i ail-ddychmygu ac ailddatblygu'r ganolfan eco i gynnwys profiad trochi newydd ar gyfer ymwelwyr sy'n cynnig microcosm o ddyfodol seiliedig ar ddewisiadau cynaliadwy, wedi'i ymgorffori o fewn lleoedd dysgu a hyfforddi ymarferol o ansawdd uchel.

Ers bron i 50 mlynedd, mae ein safle yng Nghanolbarth Cymru wedi dangos i bobl bod dyfodol gwell yn bosib ac wedi'u helpu i gymryd camau i'w wireddu. Bellach, mae'n amser am y cam nesaf yn ei hanes. Mae'n hanfodol trawsnewid y ganolfan eco os ydyn ni am ysbrydoli, cynnig gwybodaeth a galluogi cynulleidfa ehangach, fwy amrywiol i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth sy'n brysur waethygu.

Byddwn ni'n creu lleoedd newydd ar gyfer addysg mewn atebion amgylcheddol, hyb sgiliau cynaliadwy i ddarparu sgiliau gwyrdd ar gyfer y dyfodol a phrofiad trochi i ymwelwyr o'r radd flaenaf. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn datblygu ein hallgymorth digidol i ymgysylltu â phobl ledled y byd.

Ym mis Tachwedd 2021, fe lwyddon ni i sicrhau cyllid gan Gronfa Adfywio Cymunedol y DU i gynnal astudiaethau dichonoldeb a chreu cynllun safle newydd a chynllun profiad i ymwelwyr. I gefnogi'r gwaith hwn, ym mis Ionawr, fe wnaethon ni ddyfarnu contractau i'r cwmni pensaerïol enwog rhyngwladol, Haworth Tompkins, ac i'r arbenigwyr cynllunio a datblygu, Turley, dan gonsortiwm wedi'i arwain gan Faithful & Gould.

*"CAT has the unique advantage of being able to show first-hand environmental measures in action in real life, rather than being a mere exhibition space. To inspire real behaviour change, learning needs to be relatable and also enjoyable so that it does not feel like a choice between joy and environmental responsibility – and this is the balance we hope to strike."*

**Lucy Picardo, Cyfarwyddwr Haworth Tompkins**



## Croesawu ymwelwyr yn ôl

Eleni, cafodd drysau canolfan ymwelwyr CyDA eu hagor eto i ymwelwyr, myfyrwyr a chyfranogwyr cyrsiau byr, ar ôl rhyw chwe mis o fod ar gau oherwydd y pandemig byd-eang. Roedd yn hyfryd eich croesawu'n ôl wyneb yn wyneb unwaith eto a rhannu ein hegni a'n brwdfrydedd dros atebion ar gyfer yr hinsawdd.

## Nesaf:

- CoGan barhau i wanwyn/haf 2022, byddwn yn casglu syniadau ac adborth gan ein rhanddeiliaid – aelodau, cefnogwyr, myfyrwyr, ymwelwyr, pobl leol ac eraill.
- Yn gweithio gyda ni, bydd y penseiri Haworth Tompkins a'n partneriaid prosiect yn helpu i greu cynllun safle newydd a chynllun profiad i ymwelwyr, tra bydd yr ymgynghorwyr cynllunio a datblygu, Turley yn darparu cymorth i gynnal ymchwil marchnad a chynllunio busnes.
- Byddwn yn dechrau drafftio ein cynlluniau ar gyfer sut y gallai'r ganolfan eco newydd edrych ac yn eu rhannu pan fyddan nhw'n barod.




*"Mae ymgynghoriad cymunedol wrth wraidd ein cynlluniau, ac mae'n gyffrous symud i'r cam nesaf hwn o'r datblygiad gyda'n partneriaid newydd – yn creu cyfleoedd i bobl leol, busnesau, aelodau, myfyrwyr a rhanddeiliaid fel ei gilydd i ddweud eu dweud ar ddyfodol CyDA, a sicrhau ein bod yn creu'r buddion gorau posibl ar gyfer pobl, yr amgylchedd a Chanolbarth Cymru."*

**Eileen Kinsman, Cyd-Brif Swyddog Gweithredol Dros Dro**

# Mynd yn nes at Brydain Di-garbon

Mae Prydain Di-garbon yn cynnig gweledigaeth o sut y gallai ynni, adeiladau, trafnidiaeth, diwydiant, deiet a defnydd o'r tir edrych yn y dyfodol, gan helpu cynghorau, cymunedau, sefydliadau a busnesau i wynebu heriau'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth.

Eleni, llwyddon ni i lansio hyb adnoddau Prydain Di-garbon, ynghyd â chyrsiau a Labordai Arloesi newydd. Nod y rhain yw helpu i droi datganiadau ar yr argyfwng hinsawdd yn gamau gweithredu, lleihau allyriadau, a chreu newid systemig i gefnogi'r gwaith o liniaru newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth a chynyddu ein gallu i ymdopi â'r ffactorau hyn.

Mae ein hyb adnoddau ar-lein Prydain Di-garbon bellach yn ei gwneud yn haws i sefydliadau ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw i leihau eu hallyriadau carbon a chefnogi bioamrywiaeth. Am y tro cyntaf, mae'r hyb yn dwyn ynghyd lyfrgell helaeth o adnoddau rhad ac am ddim ar bopeth o gyfrifo gwerth coed yn eich ardal leol, i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn y gwaith, a sut y gall cynghorau ymgysylltu â'r gymuned.

Ym mis Mai 2021, fe wnaethon ni lansio cyfres newydd o gyrsiau ar-lein yn canolbwyntio ar y themâu a gyflwynwyd yn ein hymchwil Prydain Di-garbon. Roedd y cyntaf yn y gyfres yn archwilio datrysiadau ynni lleol, ac yn edrych ar sut i sefydlu a rhedeg prosiect ynni










cymunedol neu leol, gyda sesiynau ar opsiynau ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd a lleoliad, sut i gychwyn prosiect a denu rhanddeiliaid, ac ystyriaethau cyfreithiol ac ariannol pwysig. Fe wnaethon ni gynnig lleoedd wedi'u hariannu ar ein cyrsiau Prydain Di-garbon: Yn Fyw Ar-lein trwy fwrsari, gan wneud hyfforddiant yn fwy hygyrch i bawb.

Fe lwyddon ni hefyd i gynnig ein cyrsiau Llythrennedd Carbon cyntaf ar gyfer awdurdodau lleol, gan ddarparu 'ymwybyddiaeth o gostau ac effeithiau carbon yn sgil gweithgareddau bob dydd a'r gallu a'r cymhelliant i leihau allyriadau, fel unigolyn, fel cymuned ac fel sefydliad'. Mae ein cydweithrediad â'r Prosiect Llythrennedd Carbon yn cynnig model 'hyfforddi'r hyfforddwr', gyda'r nod y bydd hyfforddi'n rhaeadru drwy sefydliad. Mae hwn bellach yn un o'r cyrsiau mwyaf poblogaidd rydyn ni'n ei gynnig.

Cynhaliwyd ein cwrs cyntaf yr un pryd â Diwrnod Gweithredu Llythrennedd Carbon ar 1 Tachwedd, diwrnod cyntaf COP26. Hwn oedd y digwyddiad hyfforddi byw mwyaf erioed ar weithredu ar yr hinsawdd, gyda channoedd o sefydliadau a miloedd o ddysgwyr yn cwblhau eu hyfforddiant Llythrennedd Carbon ar yr un pryd.

*Canolfan Prydain Di-garbon a'r Labordy Arloesi*




Drwy Labordai Arloesi Prydain Di-garbon buon ni'n cefnogi cynghorau a grwpiau cymunedol i archwilio'r rhwystrau i weithredu, ac yn eu cefnogi i gydweithio i'w goresgyn.

Yn 2021, mewn partneriaeth â Phrifysgol Keele, buon ni'n gweithio gyda 32 o gynrychiolwyr o 10 cyngor ar draws Swydd Stafford i archwilio'r heriau maen nhw'n eu hwynebu i gyrraedd eu nodau mewn perthynas â'r hinsawdd. Fe wnaeth y broses helpu'r cyfranogwyr i ddeall yn well y rhwystrau i gyrraedd sero net, creu gweledigaeth i'r sir, a nodi amcanion tuag at gyflawni eu nodau unigol a'u nodau ar y cyd.

Bu Labordy Arloesi arall gyda Phartneriaeth Gweithredu ar Newid yn yr Hinsawdd Sir Amwythig (SCAP) yn canolbwyntio ar un her fawr: sut i annog mwy o fusnesau ledled Sir Amwythig i gymryd rhan yng nghynllun gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd SCAP. Buon ni'n rhedeg y labordy ar y cyd â'n Hysgol

Graddedigion yr Amgylchedd, gan gefnogi ein myfyrwyr Meistr yn eu modiwl Ymchwil Gymhwysol. Daeth cynrychiolwyr o 14 busnes bach a chanolig (BBaCh) ynghyd i gyd-ddylunio atebion i'r rhwystrau y mae busnesau'n eu hwynebu ar hyn o bryd, gan alluogi SCAP i ymgysylltu â nhw'n well a'u cefnogi'n well.


Diolch i haelioni ein cefnogwyr, fe lwyddon ni i ehangu'r tîm Prydain Di-garbon eleni, a fydd yn caniatáu i ni gefnogi mwy o gynghorau, cymunedau a sefydliadau eraill i weithredu ar yr argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth. Diolch yn fawr.

Ar 30 Medi, fe wnaeth tîm Prydain Di-garbon CyDA, ochr yn ochr ag Ashden, Climate Emergency UK ac Aberdeen Climate Action, gyd-gynnal cynhadledd ar-lein i 800 o bobl, yn arddangos rhai o'r camau gweithredu gorau a gymerwyd gan awdurdodau lleol ledled y DU ac Ewrop i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur.

Bu ein Fforwm Cymunedau Sirol ar Weithredu ar Newid yn yr Hinsawdd yn cefnogi pobl a grwpiau sy'n gweithio ar lefel sirol ar fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth. Yn y flwyddyn ddiwethaf hon, buon ni'n trafod tir a bioamrywiaeth; trafnidiaeth; defnydd, gwastraff ac adnoddau; a busnesau bach.

## Nesaf:

- Yn 2022-23, byddwn yn cyhoeddi adroddiad a fydd yn cynnwys argymhellion i gynghorau yn seiliedig ar Labordy Arloesi Cyngor Swydd Stafford.




- Yn dilyn hyfforddiant llwyddiannus ar gyfer y Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLlL) ym mis Medi 2021 a mis Ionawr 2022, cafodd ein tîm Prydain Di-garbon ei gomisiynu i ddarparu rhaglenni pellach ar gyfer CLlL fel rhan o'u cyfres Hanfodion Arweinyddiaeth: Yr Argyfwng Hinsawdd.
- Dyfarnwyd contract i dîm Prydain Di-garbon CyDA gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol i redeg labordy arloesi i gefnogi'r gwaith o greu canllawiau 'Cynaliadwyedd ym mhob Polisi'.
- Bydd dau gwrs ar-lein newydd yn cael eu hychwanegu i'n cyfres o raglenni hyfforddi Prydain Di-garbon ar gyfer 2023 – 'Prydain Di-garbon: Llythrennedd Carbon ar gyfer y Sector Tai' a 'Prydain Di-garbon: Llythrennedd Carbon ar gyfer Cymunedau'.

# Ehangu ein Hysgol Graddedigion



Ehangu ein Hysgol Graddedigion

Ymunodd dros 250 o fyfyrwyr – y nifer mwyaf erioed – â'n Hysgol Graddedigion yr Amgylchedd ym mis Medi 2021 i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau i chwarae eu rhan mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth.

Er mwyn cynyddu amrywiaeth y bobl sy'n astudio gyda ni, fe gynigion ni ystod o fwrsarïau ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig newydd yn 2022, diolch i roddion gan ymddiriedolaethau elusennol ac aelodau a chefnogwyr CyDA. Fe wnaeth y rhain ein caniatáu i gefnogi myfyrwyr a fyddai fel arall wedi methu â fforddio astudio yn CyDA. Eleni cafodd y Bwrsari Llwyngwern newydd ei lansio, wedi'i henwi ar ôl yr hen chwarel lechi sy'n gartref i CyDA.

Eleni, bu myfyrwyr yn mwynhau darlithoedd a sesiynau ymarferol gan dros 30 o siaradwyr gwadd allanol, gan gynnwys yr Athro Kevin Anderson o Ganolfan Tyndall; Asad Rehman, un o sylfaenwyr  Clymblaid COP26; Dr Haseeb Irfanullah o'r Ganolfan Datblygu Cynaliadwy yn Dhaka; Judy Ling Wong CBE, Llywydd Anrhydeddus Rhwydwaith yr Amgylchedd Du; yr Athro Tim Lang o'r Ganolfan Polisi Bwyd ym Mhrifysgol

y Ddinas (City University); a'r Athro Lorraine Whitmarsh, Cyfarwyddwr Canolfan Newid yn yr Hinsawdd a Thrawsnewidiadau Cymdeithasol y DU. Fe groesawon ni hefyd Agamemnon Otero MBE, a raddiodd o CyDA, i siarad â myfyrwyr am ei waith yn grymuso cymunedau.

Cafodd pedwar o'n cyrsiau ôl-raddedig eu diweddaru a'u hail-ddilysu eleni, yn dilyn adolygiad gan ein partner dilysu, Prifysgol Dwyrain Llundain (UEL). Trwy ymgynghori â myfyrwyr, graddedigion CyDA ac arweinwyr diwydiant, fe wnaethon ni ddiweddaru'r cyrsiau i adlewyrchu'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n esblygu ac sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth ar draws ystod eang o sectorau a graddfeydd.

Mewn cydweithrediad â Phrifysgol Aberystwyth, gwnaethom gyd-guradu arddangosfa o'r enw 'Y Bywyd a Fynnwn' yng Nghanolfan Celfyddydau Aberystwyth, a oedd yn arddangos gweledigaethau myfyrwyr o'r hyn sy'n bwysig ac ar sut i ymgysylltu â realiti a pherthnasoedd y blaned. Bu ymwelwyr i'n canolfan eco dros yr haf yn mwynhau arddangosfa 'Pensaernïaeth Amgen', a oedd yn cyflwyno Prosiectau Dylunio Terfynol myfyrwyr Pensaernïaeth Gynaliadwy March blwyddyn 4 a 5.

Ar 10 Gorffennaf, fe groesawon ni dros 50 o raddedigion CyDA a'u gwesteion i'n seremoni raddio ar-lein gyntaf un. Ar ôl gohirio'r seremoni wyneb yn wyneb oherwydd y pandemig, roedd hwn yn gyfle i ddathlu cyflawniadau ein graddedigion gyda'n gilydd.

Roedd hyn yn gyfle i rannu llwyddiant graddedigion blaenorol CyDA, gan gynnwys Scott Simpson cyd-sylfaenydd cwmni deunyddiau ac adeiladu bio IndiNature. Cwmni yw hwn a dderbyniodd £3m o gymorth gan Fanc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban i agor ffatri inswleiddio naturiol bwrpasol yng Ngororau'r Alban. Cafodd dros £2m o fuddsoddiad ei ddyfarnu i Adaptavate, cwmni a sefydlwyd gan Tom Robinson a raddiodd o CyDA, sy'n datblygu ac yn gweithgynhyrchu deunyddiau adeiladu cynaliadwy, carbon-isel. Bydd yr arian yn mynd tuag at gynyddu faint o Breathaboard a gaiff ei gynhyrchu, sef plastrfwrdd sy'n amsugno carbon.

## Nesaf:

- Bydd Ysgol Graddedigion yr Amgylchedd CyDA yn cael ei harolygu gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA), corff ansawdd annibynnol y DU ar gyfer addysg uwch, gyda'r canlyniadau i gael eu cyhoeddi ym mis Mehefin.
- Bydd ein cwrs Meistr Ymchwil (MRes) newydd, Cynaliadwyedd ac Addasu, yn cael ei lansio ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf i ateb y galw cynyddol am ymchwilio i atebion di-garbon. Bydd y cwrs yn croesawu ei garfan gyntaf o fyfyrwyr ym mis Medi 2023.









# Llenwi'r bwlch sgiliau

Er mwyn cyflawni'r chwyldro ôl-osod sydd ei angen er mwyn lleihau allyriadau carbon a chreu swyddi cynaliadwy, mae arnon ni angen miloedd o weithwyr aml-sgiliau i weithio ar gartrefi ac adeiladau ledled y DU. Ar hyn o bryd, mae bwlch sgiliau enfawr yn bodoli yn y maes hwn, sy'n llesteirio cynnydd ac yn cadw llawer ohonon ni mewn cartrefi drafftiog, aneffeithlon o ran ynni.


Dyfarnodd Cronfa Adfywio Cymunedol y DU gyllid i CyDA ac Asiantaeth Ynni Severn Wye ar gyfer prosiect partneriaeth newydd sy'n darparu hyfforddiant sgiliau cynaliadwy, cefnogi swyddi gwyrdd a chynyddu dealltwriaeth a gwybodaeth am atebion amgylcheddol. Bydd y prosiect nid yn unig yn ein helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac yn helpu i lenwi'r bwlch sgiliau, bydd hefyd yn cyfrannu at adfer economi Canolbarth Cymru am flynyddoedd lawer i ddod.

Eleni, gan ddefnyddio'r arian newydd hwn, buon ni'n datblygu Dosbarth Meistr Ôl-osod newydd i helpu i feithrin sgiliau a gwybodaeth o fewn y diwydiant adeiladu. Nod y rhaglen beilot hon yw profi rhaglen drochi ymarferol newydd sydd wedi'i chreu'n bwrpasol ar gyfer y sector adeiladu. Gan ddefnyddio dull sy'n ystyried y tŷ yn ei gyfanrwydd o ran ôl-osod, mae'n cwmpasu'r gwaith o wella effeithlonrwydd ynni adeiladau ynghyd â gosod systemau ynni adnewyddadwy a phympiau gwres.

Bu CyDA hefyd yn cael cyllid gan Arwain, prosiect gan yr UE i gefnogi atebion arloesol mewn ardaloedd gwledig, trwy Gyngor Sir Powys, i ddatblygu Clwstwr Sgiliau Cynaliadwyedd yn y rhanbarth. Drwy'r







> *"Roedd y tiwtoriaid yn hynod wybodus ac yn blaenoriaethu magu hyder yn ogystal â sgiliau. Mae hon wedi bod yn wythnos sydd wedi newid fy mywyd – wnes i bethau doeddwn i byth yn meddwl y gallwn ei wneud."*
>
> **Suzanne Oakley, cyfranogwr ar gwrs byr**

arian hwn bu'n bosib

creu partneriaeth gyda Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru ac eraill, a chafodd asesiad anghenion rhanbarthol ei gwblhau ar gyfer sgiliau a hyfforddiant gwyrdd. Wedyn, cynhaliodd y bartneriaeth sesiynau peilot mewn lleoliadau cymunedol i ddarparu rhai o'r sgiliau galwedigaethol a nodwyd yn yr adroddiad.

Mewn ymateb i gyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol yn ystod y pandemig, trwy gydol 2021, buon ni'n cynnal digwyddiadau a chyrsiau ar-lein i helpu pobl i feithrin eu gwybodaeth a'u sgiliau cynaliadwyedd.

Pan oedd y canllawiau'n caniatáu hynny, fe groesawon ni bobl yn ôl ar y safle i wneud cyrsiau byr wyneb yn wyneb ar bopeth o drwsio tŷ llaith i adeiladu tyrbin gwynt bach.

## Nesaf:

- Bydd y cyfranogwyr cyntaf yn cymryd rhan yn ein Dosbarth Meistr Ôl-osod newydd yn 2022. Bydd y casgliadau o'r rhaglen beilot yn cael eu defnyddio i ddatblygu cyrsiau yn y dyfodol gyda'r nod o helpu i fynd i'r afael â'r bwlch sgiliau gwyrdd, un o'r prif rwystrau i gyrraedd y nod di-garbon.
- Byddwn hefyd yn ymchwilio i gyrsiau newydd ychwanegol seiliedig ar sgiliau, gyda'r potensial i ddatblygu cyrsiau wedi'u hachredu ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed.

# CyDA yn COP26

Bu tîm o CyDA yn Glasgow ar gyfer trafodaethau COP26 ar yr hinsawdd ym mis Tachwedd. Roedd hon yn foment arwyddocaol i bob cenedl gynyddu eu hymrwymiad mewn perthynas â lleihau allyriadau carbon a chadw at nod 1.5°C Cytundeb Paris.

Drwy'r wythnos, buon ni'n rhannu gwybodaeth ac ymchwil gyda chyfranogwyr o bedwar ban y byd. Bu cwrdd â phobl a sefydliadau, o bob rhan o'r mudiad cyfiawnder i'r amgylchedd a'r hinsawdd, yn gyfle gwerthfawr inni greu cysylltiadau a phartneriaethau newydd i gynyddu ein heffaith.

Roedd CyDA yn un o lond llaw o sefydliadau a enillodd Statws Sylwedydd gan Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd (UNFCCC), gan roi mynediad i ni i'r ardaloedd lle cynhaliwyd y sgyrsiau, cyflwyniadau a thrafodaethau swyddogol.

Buon ni'n siarad mewn sawl digwyddiad fel rhan o raglen COP26. Bu ein Rheolwr Labordy Arloesi, Dr Anna Bullen, yn cymryd rhan mewn trafodaeth banel, ochr yn ochr â'r Prif Weinidog Mark Drakeford a Chadeirydd y Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd, yr Arglwydd Deben, ar bwysigrwydd gwasgaru arweinyddiaeth wrth weithredu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. A bu Paul Allen, Cydlynydd Gwybodaeth ac Allgymorth Prydain Di-garbon yn amlinellu manteision senarios di-garbon cenedlaethol sy'n gweithio ar draws sectorau i wireddu gweledigaeth am ddyfodol cadarnhaol.

> *"Mae bod yn COP26 wedi rhoi'r cyfle i ni gysylltu â phobl a sefydliadau sy'n gweithio tuag at yr un nod, rhywbeth sy'n hanfodol i allu darparu atebion i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ar y raddfa a'r cyflymdra y mae'r argyfwng hinsawdd yn eu mynnu."*
>
> **Eileen Kinsman, Cyd-Brif Swyddog Gweithredol Dros Dro**

Fel rhan o'r Diwrnod Gweithredu Byd-eang ddydd Sadwrn 6 Tachwedd, amcangyfrifwyd bod 100,000 o bobl – gan gynnwys tîm COP26 CyDA – wedi gorymdeithio drwy Glasgow, yn galw ar arweinwyr y byd i weithredu'n gryfach ac yn gyflymach ar yr argyfwng yn yr hinsawdd. Bu nifer o gefnogwyr CyDA yn cymryd rhan mewn digwyddiadau ledled y DU ac ar-lein i leisio eu barn – diolch yn fawr i chi.

Trwy gydol COP26, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau 'COP Cymru' ledled Cymru, a oedd wedi'u trefnu gan Lywodraeth Cymru. Yn CyDA, fe wnaethon ni gynnal sioe deithiol ranbarthol Canolbarth Cymru ar thema natur, ynghyd â thrafodaeth banel ar newid ymddygiad.

Yn y cyfnod cyn COP, fe wnaethon ni groesawu'r Prif Weinidog Mark Drakeford i CyDA i drafod ein hatebion ymarferol i'r argyfwng hinsawdd. Buon ni'n canolbwyntio ar bwysigrwydd hyfforddiant ac addysg a'r angen am newid cyflym ym mhob sector i leihau allyriadau.




*"Mae wedi bod yn wych i glywed am yr holl waith y mae [CyDA] yn ei wneud i'n helpu ni gyd i baratoi ar gyfer dyfodol mwy cynaliadwy. Gyda'i gilydd, mae'r ffordd rydyn ni'n byw yn y cartref, y ffordd rydyn ni'n gweithio, y ffordd rydyn ni'n teithio i gyd yn gwneud gwahaniaeth. ... neges bwerus iawn gan Gymru yn Glasgow."*

**Mark Drakeford,**
**Prif Weinidog Cymru**

## Nesaf:

- Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein Statws Sylwedydd UNFCCC i gymryd rhan mewn trafodaethau rhyngwladol ar yr hinsawdd, gyda chynlluniau i ymuno o bell â COP27 yn yr Aifft ym mis Tachwedd 2022.
- Byddwn yn parhau i ehangu ein gwaith gyda llunwyr polisi a partner sefydliadau i archwilio a rhannu atebion i'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth.







# Hanesion CyDA – sut mae ein cymuned yn gwneud gwahaniaeth

**Dyma dynnu sylw at ddetholiad o'r miloedd o aelodau o gymuned CyDA sy'n cymryd camau ymarferol tuag at adeiladu dyfodol cynaliadwy.**

## Trawsnewid adeiladu: Guillermo Fernández Camacho

Roedd gan Guillermo gefndir mewn pensaernïaeth ac adnewyddu adeiladau hanesyddol yn Sbaen cyn ei astudiaethau yn CyDA, ac eto roedd yn teimlo nad oedd ganddo'r wybodaeth dechnegol i fynd i'r afael â materion amgylcheddol yn ei waith. I lenwi'r bwlch hwn yn ei wybodaeth dewisodd ein cwrs Adeiladu Gwyrdd, ac ar ôl graddio yn 2021 mae bellach yn gweithio yn PYC, cwmni adeiladu cynaliadwy wedi'i leoli yng Nghanolbarth Cymru.

> *"Roedd CyDA yn le bendigedig i ddechrau fy nhaith ar lwybr proffesiynol boddhaus. Roedd lleoliad CyDA a'i chymwysterau cynaliadwyedd yn sefyll allan i mi a dyna pam y dewisais astudio yno."*



## Rhannu sgiliau: Rosie Murphy

Graddiodd Rosie o'r cwrs Pensaernïaeth Gynaliadwy Rhan 2 yn CyDA, ac ers dechrau 2022 mae wedi gweithio i Matt+Fiona, menter gymdeithasol sydd o'r farn y dylai pawb gael yr hawl i helpu i lunio eu hamgylchedd adeiledig.

Roedd nifer o brosiectau Rosie pan oedd hi'n fyfyrwraig wedi mynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng anghyfiawnderau cymdeithasol ac amgylcheddol o fewn yr amgylchedd adeiledig a, thrwy waith gwirfoddol ac ymgyrchu, mae Rosie yn ceisio codi ymwybyddiaeth am faterion newid yn yr hinsawdd a dirywiad ecolegol, yn ogystal â'r anghydraddoldebau hiliol sy'n bodoli yn y diwydiant pensaernïol a thu hwnt.



## Cefnogi gwaith ôl-osod: Jason Morrissey

Cymerodd Jason ran yn ein Cwrs Meistr Ôl-osod pum diwrnod ar gyfer pobl yn y diwydiant adeiladu ym Mhowys. Bu'r cyfranogwyr yn datblygu eu sgiliau ymarferol ac yn dysgu am sut y bydd ôl-osod adeiladau yn helpu i arbed ynni a lleihau allyriadau. Roedd y cwrs yn cwmpasu meysydd a oedd yn cynnwys y dull ôl-osod tŷ cyfan, gwneud tai'n aerglos, inswleiddio, lleithder, gweithio gyda chalch a phlastr calch, technolegau ynni adnewyddadwy a phympiau gwres.

*"Wrth ymuno â'r Dosbarth Meistr Ôl-osod, fy mwriad oedd ychwanegu sgiliau ymarferol at fy nhaith ddysgu a magu dealltwriaeth o'r manylion sydd ynghlwm wrth y prosesau ymarferol. Roedd e'n brofiad gwirioneddol wych."*



## Cyflymu gweithredu gan fusnesau bach: Sue Burnell

Mae Sue yn gydlynydd Cyf-weithgor Mentrau Zero Carbon Shrophire - rhwydwaith o berchnogion busnesau bach i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Roedd y busnesau yn ei gweithgor am ddeall y rhwystrau i fusnesau bach a chanolig gymryd rhan mewn cynaliadwyedd a dechrau ar eu taith ddi-garbon ond doedd ganddyn nhw ddim yr arbenigedd i gynnal yr ymchwil angenrheidiol. Dyma sut roedd Labordy CyDA yn gallu helpu.

*"Roedd cymryd rhan yn Labordy Arloesi CyDA yn hwyl, yn procio'r meddwl, yn heriol, ac yn darparu'r gallu ymchwil oedd ei angen arnon ni. Llwyddodd i gyflymu ein gwaith a'n galluogi i fynd o egin weithgor i gynllunio camau gweithredu o fewn cwta chwe mis."*



## Chwyldroi deunyddiau: Scott Simpson

Yn ystod ei gyfnod yn CyDA, ar un o'n cyrsiau ôl-raddedig Ysgol Graddedigion yr Amgylchedd, bu Scott Simpson yn magu'r sgiliau technegol yr oedd eu hangen arno i lansio IndiNature, busnes insiwleiddio naturiol cyntaf y DU. Mae ei insiwleiddio IndiTherm wedi'i wneud o gywarch diwydiannol sy'n cael ei dyfu yn y DU ac sy'n dal carbon wrth iddo dyfu sy'n arwain at gynnyrch sy'n gallu cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu ac sy'n fioddiraddadwy. Yn ddiweddar, derbyniodd IndiNature gefnogaeth o £3m gan Fanc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban i agor ffatri insiwleiddio naturiol bwrpasol yng Ngororau'r Alban.

*"Cofrestru i wneud gradd Meistr CyDA oedd y penderfyniad gorau wnes i erioed. Dysgais lawer o sgiliau technegol i helpu gyda dewis deunyddiau a systemau priodol ar gyfer gwahanol adeiladau, systemau a hinsoddau."*



# Y flwyddyn mewn rhifau

90% o wariant ar weithgareddau elusennol

7,387 o aelodau

22.5k o ddilynwyr twitter

Dros 5,000 o oriau gwirfoddoli

445,000 o ddefnyddwyr i'r wefan

4 Labordai Arloesi

49.6k o ddilynwyr facebook

130 o gyfranogwyr yn y Labordai Arloesi

16 o gyrsiau hyfforddi Llythrennedd Carbon a Phrydain Di-garbon

ZERO CARBON BRITAIN

14,275 o ymwelwyr i ganolfan eco CyDA er gwaetha'r clo a'r cyfyngiadau yn sgil covid
(37,770 yn 2019/20)

256 o fyfyrwyr yn cychwyn cyrsiau Meistr CyDA

76
o gyrsiau byr

499 o bobl ar gyrsiau hyfforddi Prydain Di-garbon


998
o gyfranogwyr cyrsiau byr


157 o fyfyrwyr yn graddio yn 2021

Tua 700 o fyfyrwyr yn astudio ar gyfer gradd Meistr CyDA

£3.74 wedi'i godi am bob £1 a gafodd ei wario ar godi arian ac aelodaeth

# Sut y gwnaethon ni wario ein hincwm




## Incwm a gwariant 2021/22 (1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022)

Parhaodd ein haelodaeth a'n sylfaen o gefnogwyr i dyfu yn 2021-22, gan helpu i ariannu ein gwaith hanfodol. Diolch i haelioni ein cefnogwyr, codwyd £869,904 y llynedd, a oedd yn uwch na'n targedau ac yn uwch nag incwm y flwyddyn gynt. Am bob £1 a wariom ar godi arian ac aelodaeth, llwyddom i godi £3.74. Mae CyDA wedi'i chofrestru gyda'r Rheoleiddiwr Codi Arian ac yn cydymffurfio â Chod Ymarfer Codi Arian. Rydyn ni'n monitro ein holl weithgareddau codi arian yn ofalus er mwyn sicrhau gwerth, cydymffurfio ac uniondeb yn ein holl weithgareddau.

## Diolch i'n noddwyr

*Hoffem ddiolch i'r noddwyr canlynol a helpodd i wneud ein gwaith yn bosibl eleni:*

1970s Trust

H C D Memorial Fund

The Cobb Charitable Trust

The Marmot Charitable Trust

The Moondance Foundation

The Orr Mackintosh Foundation

Cronfa Adfywio Cymunedol Llywodraeth y DU trwy Gyngor Sir Powys

Ein holl aelodau a'n rhoddwyr unigol

*Diolch yn ogystal i roddwyr caredig y bwrsarïau canlynol ar gyfer Ysgol Graddedigion yr Amgylchedd:*

Bwrsari Ymddiriedolaeth Ethel a Gwynne Morgan

Bwrsari Syr John Houghton

Bwrsari Llwyngwern

Bwrsari Rose Jessica-Maia

Powys

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

## Cyfrannwch heddiw

Rydyn ni'n dibynnu ar haelioni ein cefnogwyr a nifer fechan o ymddiriedolaethau elusennol i sicrhau bod newid yn digwydd.

I gefnogi ein gwaith hanfodol, cyfrannwch ar-lein yn

**www.cat.org.uk/donate**.

Gallai eich rhodd chi heddiw ein helpu i addysgu, ysbrydoli a galluogi cymuned ehangach a mwy amrywiol o bobl a all greu newid i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth.

Diolch i chi.

# Diolch

Roedd popeth yn yr adolygiad blynyddol hwn yn bosib o'ch herwydd chi.

Mae cymuned CyDA yn tyfu ac yn parhau i greu newid yn lleol, yn genedlaethol a ledled y blaned.

Gyda'n gilydd, gallwn wireddu ein gweledigaeth gyffredin o ddyfodol cynaliadwy i ddynoliaeth fel rhan o fyd sy'n ffynnu.

## Elusen Gyfyngedig CyDA


Canolfan y Dechnoleg Amgen, Llwyngwern Quarry,
Machynlleth, Powys SY20 9AZ

www.cat.org.uk

01654 705950

Centre for Alternative Technology

@centre_alt_tech

@centreforalternativetechnology


Wedi'i argraffu ar bapur sydd 100% wedi'i ailgylchu.

Centre for Alternative Technology Charity Ltd, cwmni cyfyngedig drwy warant;
Rhif elusen. 265239; Rhif cwmni. 1090006, wedi'i gofrestru yng Nghymru; swyddfa gofrestredig: Chwarel Llwyngwern, Machynlleth, Powys SY20 9AZ. Rhif TAW: 377 8917 83.

